

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

CosmeticliniC, Caerffili

Dyddiad yr arolygiad: 26 Medi 2022

Dyddiad cyhoeddi: 29 Rhagfyr 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80535-091-0

© Hawlfraint y Goron 2022

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom.....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	11
	• Ansawdd Profiad y Claf	11
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	26

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Gwmni CosmeticliniC ar 26 Medi 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod CosmeticliniC yn ymrwymedig i roi gwasanaeth cadarnhaol, cyfeillgar a phroffesiynol i'w cleientiaid. Edrychwyd ar yr adborth a roddwyd ar wefan y clinig a dangosodd hynny fod cleientiaid yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleientiaid. Roedd digon o wybodaeth am y triniaethau a oedd ar gael, ac roedd cyfarwyddiadau cyn ac ar ôl triniaeth ar gael yn hwylus hefyd.

Gwelsom fod y clinig wedi rhoi polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith ond nad oedd wedi cael ei ddiweddararu ers saith mlynedd a bod angen ei adnewyddu.

Hefyd, gan fod y clinig wedi'i leoli ar y llawr cyntaf, byddem yn argymhell bod y clinig yn hysbysu darpar gleientiaid am anawsterau hygyrchedd drwy wefan y clinig.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Yn ystod ein hymweliad, gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig roi tystiolaeth i ni fod ansawdd y gwasanaeth a roddir i gleientiaid yn cael ei fonitro'n weithredol. Dywedwyd wrthym, er y gallai cleientiaid adael adborth ar y wefan, nad oedd unrhyw ddull ffurfiol o asesu'r clinig yn cael ei ddefnyddio.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Sicrhau bod cleientiaid yn cael eu hysbysu drwy wefan y clinig nad yw'r clinig yn hygyrch i gleientiaid sydd ag anawsterau hygyrchedd.
- Ystyried anghenion cyfathrebu cleientiaid er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a roddir gan y clinig yn sensitif i anawsterau iaith neu gyfathrebu.
- Casglu adborth rheolaidd gan gleientiaid mewn ffordd safonol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i ddarparu gwasanaeth o safon i gleientiaid.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd croesawgar, sy'n olau, yn agored ac yn fodern.

Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y clinig wedi rhoi trefniadau addas ar waith i gynnal a chadw'r cyfarpar laser a sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel.

Edrychwyd ar ddetholiad o gofnodion cleientiaid a gwelsom eu bod yn cynnwys ffurflenni cydsynio a chofnod o'r driniaeth laser a oedd wedi cael ei rhoi gan y clinig. Fodd bynnag, roedd y ffurflenni hanes meddygol, er eu bod yn bresennol, wedi cael eu cwblhau gan y cleient ac nid oeddent bob amser yn ymddangos yn gynhwysfawr.

Fodd bynnag, gwelsom fod risg i gleientiaid am nad oedd unrhyw ddarpariaethau priodol ar gyfer asesiad risg tân a diogelwch; nid oedd unrhyw wiriad ar gyfer gwifrau trydanol na thystysgrif diogelwch nwy. At hynny, nid oedd y prawf ar gyfarpar cludadwy wedi cael ei gynnal ar bob darn o gyfarpar trydanol cludadwy yn y lleoliad, gan gynnwys y cyfarpar laser a oedd yn bresennol yn y clinig.

Roedd angen gwelliannau i brosesau atal a rheoli heintiau a diogelu oedolion sy'n agored i niwed ac oedolion sy'n wynebu risg er mwyn atal y risgiau sy'n ymwneud â heintio sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a cham-drin.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ni chafodd AGIC sicrwydd fod y safle a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y clinig laser yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i gleientiaid. Roedd hyn yn cynnwys diffyg asesiadau risg a darpariaethau yn achos tân, dim tystiolaeth diogelwch nwy, dim gwiriad gwifrau pum mlynedd, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o brofion PAT ar gyfarpar trydanol cludadwy, gan gynnwys y cyfarpar laser.
- Ni chafodd AGIC sicrwydd bod y clinig laser wedi rhoi polisiau na hyfforddiant ar waith i sicrhau bod oedolion sy'n agored i niwed ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu diogelu'n briodol rhag y risg o gael eu cam-drin. Nid oedd y polisi a roddwyd i ni yn cynnwys digon o fanylion penodol am y clinig na'r ardal lle roedd yn gweithredu ac nid oedd unrhyw gysylltiadau diogelu lleol. At hynny, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant diogelu hyd at lefel dau.
- Ni chafodd AGIC sicrwydd fod yr hanes meddygol sy'n cael ei gofnodi yng nghofnodion cleientiaid yn ddigon cynhwysfawr a/neu'n cael ei ddiweddarau'n briodol yn ystod pob sesiwn driniaeth. Roedd ffurflenni hanes meddygol yn cael eu rhoi i gleientiaid i'w cwblhau, ond nid oedd y canllawiau ar hyn yn glir. Nid oedd dyddiadau cwblhau yn cael eu cofnodi ar y ffurflen hanes meddygol, ac nid oedd yn glir pryd roeddent wedi cael eu diweddarau.

- Ni chafodd AGIC sicrwydd fod y clinig wedi rhoi systemau effeithiol a chadarn ar waith i ddiogelu cleientiaid rhag y risg o gael haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Ni allai'r rheolwr cofrestredig na gweithredwr y laser ddarparu polisi atal a rheoli heintiau addas a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau o fewn y tair blynedd diwethaf. Hefyd, nid oedd y rhestr lanhau na'r rhestr wirio wedi cael eu cwblhau i ddangos bod yr amgylchedd clinigol wedi cael ei lanhau.
- Wrth edrych ar yr amgylchedd clinigol gwelwyd arferion atal a rheoli heintiau gwael. Roedd y rhain yn cynnwys storio eitemau clinigol yn amhriodol, a oedd yn eu hamlygu i'r risg y byddent yn cael eu halogi ag aerosolau neu ddiferion ac i lwch. Gwelwyd eitemau bwyd a diod mewn ystafelloedd triniaeth glinigol ymhlith eitemau a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer mân driniaethau llawfeddygol. Roedd y sinc o fewn yr ystafell laser wedi'i staenio ac roedd angen ei glanhau.
- Ni chafodd AGIC sicrwydd fod y clinig laser wedi rhoi trefniadau cymorth cyntaf addas ar waith. Dim ond llond dwrn o rwymynnau oedd yn y bocs cymorth cyntaf yn y clinig. Roedd dyddiad dod i ben o 2008 arnynt ac roedd angen rhai newydd. Darparodd y rheolwr cofrestredig becyn meddygol argyfwng i ni. Roedd hwn yn cynnwys aspirin â dyddiad dod i ben saith mis cyn ein hymweliad. Hefyd, nid oedd y label a oedd yn rhestr cynnwys y pecyn yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am y meddyginiaethau ynddo. Ni allai'r rheolwr cofrestredig ddangos hyfforddiant cymorth cyntaf priodol ar adeg ein hymweliad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Sicrhau bod asesiad risg tân yn cael ei gwblhau. Mae'n rhaid i gamau gweithredu a mesurau rhagofal a nodwyd yn yr asesiad hwn gael eu rhoi ar waith yn ddi-oed ac mewn modd amserol.
- Trefnu bod gwiriaadau cynnal a chadw'r adeilad i'w cwblhau yn cynnwys gwiriad diogelwch nwy, gwiriad gwifrau pob pum mlynedd a phrofion PAT ar yr holl gyfarpar trydanol cludadwy yn y clinig.
- Adolygu'r polisi diogelu presennol. Dylai hyn fod yn benodol i'r safle a chynnwys gweithdrefn a rhestr o gysylltiadau lleol.
- Mae'n rhaid cwblhau tystiolaeth o hyfforddiant diogelu hyd at lefel dau i oedolion hefyd.
- Cyflwyno ffurflen hanes meddygol sy'n glir ac sy'n rhoi lle i gofnodi dyddiadau archwiliadau hanes meddygol.
- Cyflwyno'r rhestr wirio ar gyfer glanhau er mwyn sicrhau y cydymffurfir â threfniadau glanhau'r clinig.
- Storio eitemau clinigol yn briodol.
- Sicrhau bod bocs cymorth cyntaf â chyflenwadau priodol ar gael a bod hyfforddiant cymorth cyntaf yn cael ei adnewyddu'n rheolaidd.

- Sicrhau bod sbectolau diogelwch ar gyfer y peiriant laser yn cydymffurfio â'r hyn a bennwyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth gyson o brofion croen cyn unrhyw driniaeth.
- Roedd gan y clinig gofrestr triniaeth ar gyfer y laser a oedd yn cael ei chwblhau'n briodol.
- Roedd prosesau gwasanaethu cyfarpar yn gyfredol ac roedd gwiriadau graddnodi ar gyfer y laser yn cael eu cynnal yn rheolaidd.
- Gwelwyd Rheolau Lleol wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar a thystiolaeth o Gynghorydd Diogelu rhag Laserau cymwysedig.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Yn gyffredinol, gwelsom fod y rheolwr cofrestredig a gweithredwr y laser yn frwdfrydig ac yn wybodus am y triniaethau sy'n cael eu cynnig yn y clinig laser. Dangosodd y rheolwr cofrestredig barodrwydd i gydymffurfio â'r rheoliadau er mwyn darparu gwasanaeth diogel o safon i gleientiaid.

Roedd cofnodion cleientiaid yn cael eu storio'n briodol ac yn unol â'r canllawiau a rhoddodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth o dystysgrif datgelu a gwahardd gyfredol.

Roedd rhai materion yr oedd angen eu gwella.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ni chafodd AGIC sicrwydd fod y clinig laser wedi rhoi system addas ar waith i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth a gynigir yn y clinig laser.
- Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau ffurflen flynyddol fel sy'n ofynnol o dan reoliad 19 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Llunio adroddiad blynyddol fel y'i nodwyd yn rheoliad 19 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 a'i gyflwyno i AGIC
- Adnewyddu a diweddarau polisiâu a gweithdrefnau'r clinig er mwyn sicrhau bod y rhain yn benodol i'r safle ac yn berthnasol i'r clinig a'r gwasanaethau a gynigir

- Sicrhau bod gan y clinig delerau ysgrifenedig ar waith sy'n amlinellu telerau cyflogi aelodau o'r staff sy'n cael eu cyflogi fel arfer gan y practis meddygol ar lawr gwaelod yr adeilad.
- Diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwasanaeth wedi'i deilwra at y cleient a'i anghenion
- Cydymffurfiaeth lwyr â gofynion diogelwch laserau.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ni chawsom unrhyw holiaduron wedi'u cwblhau.

Urddas a pharch

Gwelsom fod tair ystafell ar gael i drin cleientiaid yn CosmeticliniC. Dywedwyd wrthym gan y rheolwr cofrestredig fod y clinig yn gweithredu ar sail apwyntiad yn unig. Roedd gan y clinig ystafelloedd ar wahân ar gyfer pob math o driniaeth a oedd yn cael ei chynnig, gydag un yn cael ei defnyddio fel ystafell ymgynghori yn unig, un arall ar gyfer triniaethau â'r laser a'r drydedd ar gyfer mân driniaethau llawfeddygol. Gwelsom fod ardal aros benodol hefyd.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod drysau'r ystafelloedd triniaeth bob amser yn cael eu cadw ar gau pan oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas pob cleient ac roedd gan bob ystafell orchuddion priodol ar y ffenestri.

Dywedwyd wrthym y byddai'r clinig yn darparu hebryngwr pe bai angen un. Roedd cleientiaid hefyd yn gallu gofyn am i ffrind neu berthynas fod gyda nhw pe baent yn dymuno hynny.

Cyfathrebu'n effeithiol

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gopi o'r canllaw i gleifion i ni, ac edrychwyd ar y datganiad o ddiben. Mae angen i'r ddwy ddogfen gael eu hadolygu a'u diwygio am nad ydynt wedi cael eu hadolygu ers 2018.

Er bod gan y clinig fersiynau print bras o'r canllaw i gleifion a'r polisi cwynion, nid oedd gwybodaeth am y triniaethau a oedd ar gael ar gael mewn nifer o fformatau i'r rhai ag anawsterau cyfathrebu neu'r rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf o bosibl.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei rhoi i gleientiaid er mwyn iddynt wneud penderfyniad ynglŷn â'u triniaeth ar sail gwybodaeth. Roedd gwybodaeth ar gael i gleientiaid drwy daflenni a gwefan y cleient, a oedd yn esbonio'r triniaethau a oedd yn cael eu cynnig. Rhoddwyd rhagor o wybodaeth ar lafar i gleientiaid yn ystod y broses ymgynghori.

Rhoddwyd tystiolaeth o ffurflenni cydsynio i driniaeth i ni. Roeddent yn gynhwysfawr ac yn cynnwys pris y triniaethau roedd cleientiaid yn cydsynio iddynt. Roedd ffurflenni yn cael eu llofnodi gan y cleient a gweithredwr y laser.

Er bod y costau unigol ar gael fel rhan o'r broses gydsynio, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd y prisiau a oedd yn cael eu hysbysebu yn y clinig nac ar y wefan yn gywir a'u bod wedi codi yn ddiweddar. Gallai hyn fod yn ddryslyd i gleientiaid ac mae angen ei newid.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai cleientiaid yn cael cyfarwyddiadau cyn ac ar ôl cael triniaeth. Byddai hyn hefyd yn cael ei roi ar lafar i gleientiaid ar bob cam.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth bod pob cleient yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn cytuno i gael triniaeth. Gwelsom dystiolaeth y byddai'r cleient yn cwblhau hanes meddygol yn ystod yr apwyntiad hwn.

Yn ystod yr arolygiad, edrychwyd ar sampl o gofnodion pedwar cleient. Roedd y rhain ond ar gael ar ffurf copi caled yn unig. Roeddent yn rhoi manylion digonol am y triniaethau a roddwyd ond roedd yn anodd eu darllen weithiau am eu bod mewn llawysgrifen.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig ddweud wrthym sut roedd cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn cael eu cynnal yn y clinig. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn croesawu pawb, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchodedig ai peidio. Hefyd, dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleientiaid trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn a byddai rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio ar gyfer y cleientiaid hyn. Gwelsom for gan y clinig bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, ond nodwyd gennym nad oedd wedi cael ei ddiweddararu ers 2018 a bod angen iddo gael ei adolygu.

Roedd y clinig wedi'i leoli ar lawr cyntaf canolfan iechyd a dim ond drwy ddringo grisiau roedd modd ei gyrraedd. Roedd hyn yn golygu na fyddai cleientiaid ag anawsterau symudedd yn gallu cael mynediad i'r clinig. Er bod hyn wedi'i nodi yn y canllaw i gleifion, nid oedd y wybodaeth hon yn cael ei rhoi fel mater o drefn i

gleientiaid. At hynny, nid oedd anawsterau hygrychedd wedi'u nodi ar wefan y clinig.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd cleientiaid yn gallu rhoi adborth ar wefan y clinig. Gellid gwneud hyn yn ddienw.

Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y clinig yn casglu adborth cleientiaid fel mater o drefn ac nad oedd y sylwadau a adawyd ar y wefan yn cael eu harddangos yn y clinig er mwyn i eraill eu gweld.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl yr olwg, yn fewnol ac yn allanol. Roedd y rhan fwyaf o'r ystafelloedd yn y clinig yn ymddangos yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon baglu. Roedd yr ystafell aros o faint da ac roedd yn gyfforddus, yn olau ac yn agored. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn fodern yr olwg ac wedi'u cyfarparu'n dda i bob golwg. Fodd bynnag, roedd yr ystafell ymgynghori yn cynnwys cyfarpar nad oedd yn cael ei ddefnyddio mwyach. Roedd hyn yn cynnwys oergell feddyginiaethau a pheiriant uwchsain.

Ni roddwyd tystiolaeth o brofion diweddar ar gyfarpar cludadwy i ni. Gwelsom nad oedd hyn wedi'i gwblhau ers 2015 a'i fod yn cynnwys y laser a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y clinig. At hynny, ni roddwyd tystiolaeth i ni fod gwiriad gwifrau bob pum mlynedd wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar na thystiolaeth o dystysgrif diogelwch nwy ar gyfer y boeler yn y clinig.

Gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig roi'r asesiadau risg tân mwyaf diweddar ynghyd â'r ddogfennaeth i ni. Ni allai'r rheolwr cofrestredig roi'r rhain ac ni allai roi dyddiad pryd y cwblhawyd hyn ddiwethaf. Gwelsom fod diffoddwr tân CO2 yn yr ystafell a oedd yn cynnwys y laser fel sy'n ofynnol o dan y Rheolau Lleol. Roedd wedi cael ei brofi'n ddiweddar ond nid oedd wedi'i atodi i'r wal yn briodol, a oedd yn achosi perygl i staff, cleientiaid ac ymwelwyr.

Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg a gwblhawyd yn ddiweddar gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau. Roedd hyn yn dangos cydymffurfiaeth dda â gofynion defnyddio'r laser yn y clinig, ond nid oedd y sbectol ddiogelwch a oedd yn cael ei defnyddio yn y clinig yn cydymffurfio â'r Rheolau Lleol.

Gwelsom nad oedd bocs cymorth cyntaf addas yn y clinig. Nodwyd mai dim ond llond dwrn o rwymynnau crêp oedd yn y bocs a oedd yno, a dim eitemau eraill. At hynny, roedd dyddiad defnyddio'r rhwymynnau hynny wedi dod i ben yn 2008.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig becyn cyffuriau brys ar gyfer y clinig i ni. Roedd hwn yn cynnwys aspirin â dyddiad dod i ben nad oedd yn gyfredol mwyach a rhestr o gynnwys nad oedd yn cyfateb i'r eitemau yn y pecyn.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Nid oedd gan y clinig bolisi atal a rheoli heintiau ar waith ar adeg ein hymweliad ac ni roddwyd polisi hylendid dwylo i ni. Dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr cofrestredig neu aelod o'r staff yn glanhau'r safle pan oedd ar agor. Fodd bynnag, er bod amserlen lanhau a rhestr wirio wedi'u rhoi i ni, nid oedd y rhestr wirio wedi'i chwblhau ac ni roddwyd unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi'i wneud.

Yn ystod ein hymweliad gwelsom ardaloedd a oedd yn achos pryder sylweddol o ran glendid y clinig. Roedd hyn yn cynnwys eitemau bwyd a diod wedi'u storio mewn droriau clinigol mewn ystafelloedd triniaeth. Gwelsom fod gwydrau champagne a gwydrau eraill yn cael eu storio mewn cwpwrdd yn yr ystafell laser. At hynny, roedd eitemau i'w defnyddio mewn triniaethau clinigol fel swabiau rhwylllog a masgiau wyneb yn cael eu storio mewn ffordd amhriodol ac roeddent yn agored i gael eu halogi ag aerosolau neu ddefnynnau.

Dywedwyd wrthym fod y clinig wedi cau'n gyfan gwbl yn ystod y pandemig ac mai dim ond ar ddechrau 2022 yr ailagorodd. Cadarnhawyd hyn gan y gofrestr o driniaethau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym, pe bai cleient yn dod i mewn a oedd yn dangos symptomau o salwch anadlol, y byddai'n cael ei gynghori i drefnu apwyntiad arall ac na fyddai'n cael ei weld y diwrnod hwnnw.

Adolygwyd y trefniadau ar gyfer storio a chasglu gwastraff. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod trefniant anffurfiol â'r ganolfan iechyd ar y llawr gwaelod ar waith. Byddai'r holl wastraff clinigol, eitemau miniog a gwastraff domestig yn cael eu gwaredu yn y ffordd hon.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae CosmeticliniC ond wedi'i gofrestru i roi triniaethau i gleientiaid dros 18 oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y clinig yn cadw at hyn ac nad oedd yn caniatáu i blant fod yn bresennol yn y clinig laser ar unrhyw adeg.

Fodd bynnag, ni allem weld tystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau lefel briodol o hyfforddiant diogelu oedolion. Yn ystod ein hadolygiad o'r polisi diogelu oedolion, gwelwyd nad oedd yn ddigon manwl a bod angen ei adolygu. Nid

oedd unrhyw fanylion am y tîm diogelu lleol na manylion cyswllt i gael cyngor pe bai cam-drin o'r fath yn cael ei amau.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd CosmeticliniC wedi'i gofrestru i ddefnyddio laser Fotana QX Max dosbarth 4 er mwyn cael gwared ar datŵau, rhoi triniaeth pigmentiad y croen, trin mân wythiennau a gwaredu blew.

Cawsom sicrwydd o weld bod y peiriant laser/IPL yn cael ei wasanaethau a'i raddnodi'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn perfformio'n ddiogel, yn gyson ac yn ôl y disgwyl. Byddai profion graddnodi yn cael eu cynnal cyn ei ddefnyddio.

Gwelsom fod contract ar waith â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau i roi cyngor diogelwch arbenigol ar ddefnyddio'r peiriant laser/IPL o ddydd i ddydd. Rhoddwyd copi o'r Rheolau Lleol a oedd wedi cael eu hadolygu gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau i ni hefyd. Roedd hyn yn unol ag amodau cofrestru'r clinig ag AGIC.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Archwiliwyd y sbectolau diogelwch a oedd ar gael i'w defnyddio gan gleientiaid, gweithredwr y laser a'r hebryngwr yn ystod triniaeth. Gwelsom eu bod mewn cyflwr da a'u bod yn cynnwys diogelwch blocio'r llygaid.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleientiaid bod profion croen yn cael eu cynnal cyn rhoi triniaeth er mwyn sicrhau ei fod yn addas rhoi'r driniaeth iddynt.

Roedd clo bysellbad ar yr ystafell driniaeth a hefyd arwydd 'do not enter' a oedd yn goleuo pan oedd y laser yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad anawdurdodedig. Y rheolwr cofrestredig oedd unig weithredwr y laser a enwyd ac roedd bob amser yn cadw'r allwedd i weithredu'r peiriant laser gydag ef.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod y clinig yn gofyn i gleientiaid lenwi ffurflen hanes meddygol a manylion personol cyn eu triniaeth gychwynnol. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei wirio gan y rheolwr cofrestredig.

Roedd cofnodion cleientiaid a'r gofrestr o driniaethau yn cael eu cadw dan glo mewn cwpwrdd er mwyn sicrhau eu diogelwch a'u cyfrinachedd. Roedd yr holl gofnodion wedi'u hysgrifennu â llaw, ac nid oedd unrhyw gofnodion yn cael eu cadw'n electronig. Dywedwyd wrthym mai dim ond y rheolwr cofrestredig a oedd yn cael mynediad at y cofnodion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Cosmeticlinic ac yn ei redeg o ddydd i ddydd. Ef oedd yr unig weithredwr laser awdurdodedig. Gwelsom fod tystysgrif cofrestru gyfredol gan AGIC yn cael ei harddangos y tu ôl i ddesg y dderbynfa. Rhoddwyd dystiolaeth o dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol i ni.

Roedd gan y clinig laser nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar gael. Fodd bynnag, roedd y rhain wedi cael eu darparu gan y Cyngorydd Diogelu rhag Laserau ac nid oeddent wedi cael eu hadolygu na'u diweddarau ers mis Medi 2015. Hefyd, roeddent yn rhai cyffredinol eu natur ac nid oeddent bob amser yn benodol i'r clinig laser.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r systemau sydd ar waith pe bai cleient am wneud cwyn. Gwelsom fod y clinig wedi rhoi gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd yn cynnwys manylion am y terfyn amser i gael ymateb a manylion ynglŷn â sut i uwchgyfeirio cwyn i AGIC, ond roedd angen adolygu manylion cyswllt AGIC.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n annog y rhai â chwynion anffurfiol neu rai ar lafar i'w rhoi'n ysgrifenedig os oedd modd, fel y gellid rhoi ymateb addas.

Gwelsom fod cofnodlyfr cwynion ar gael gan y rheolwr cofrestredig. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd unrhyw gwynion wedi'u cofnodi.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod gan y rheolwr cofrestredig wriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Nid oedd y clinig yn cyflogi unrhyw staff yn ffurfiol ac yn unol â hynny ni welsom unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant sefydlu. Dywedwyd wrthym, pe bai angen staff derbynfa neu hebryngwr, y gallai aelod o staff y ganolfan iechyd ar lawr gwaelod yr adeilad gynorthwyo. Nid oedd gan y clinig gytundeb ysgrifenedig ffurfiol ar waith i ddisgrifio telerau cyflogi'r aelod hwn o'r staff. Felly, nid oedd yn glir pwy oedd yn gyfrifol am gydnabyddiaeth am yr oriau a weithiwyd yn y clinig. At hynny, nid oedd gan y clinig unrhyw gadarnhad bod y cyflogai hwn wedi cael gwriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu hyfforddiant diogelu cyfredol. Er mwyn osgoi dryswch a sicrhau mwy o atebolrwydd, byddem yn awgrymu bod cytundeb ysgrifenedig ffurfiol yn cael ei roi ar waith sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r aelod hwn o'r staff i'r clinig. Dylai hyn hefyd gynnwys manylion cydnabyddiaeth.

Cynllunio'r gweithlu a hyfforddiant

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant y gweithgynhyrchwr ar ddefnyddio'r peiriant laser. Hefyd, roedd gan y rheolwr cofrestredig gymhwyster BTEC mewn Laser a Golau.

Meddyg teulu wedi ymddeol oedd y rheolwr cofrestredig a dywedwyd wrthym ei fod wedi cael hyfforddiant mewn pynciau gorfodol drwy ei rôl flaenorol yn y ganolfan iechyd ar y llawr gwaelod. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad, ni roddwyd tystiolaeth o hyn na thystiolaeth o hyfforddiant diweddar mewn cymorth cyntaf i ni.

Nodwyd, ar adeg ein hymweliad, fod y rheolwr cofrestredig yn cynnig Botex meddygol fel rhan o wasanaethau'r clinig. Fel meddyg teulu, mae hwn yn wasanaeth sy'n gofrestradwy o dan Ddeddf Safonau 2000 ac felly ni chaniateir ei gynnig heb gofrestru ag AGIC yn gyntaf. Hysbyswyd y rheolwr cofrestredig y dylai roi'r gorau i gynnig y gwasanaeth hwn ar unwaith a chofrestru ag AGIC pe bai'n dymuno parhau i gynnig y gwasanaeth hwn.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd y rheolau lleol wedi'u llofnodi na'u dyddio gan weithredwr y laser.	Mae'n rhaid i'r rheolau lleol gael eu llofnodi i ddangos cydymffurfiaeth â gweithredu'r cyfarpar laser yn ddiogel.	Cododd yr arolygydd y mater hwn gyda'r rheolwr cofrestredig, gan esbonio ei bod yn ofynnol iddo eu llofnodi.	Llofnodwyd y rheolau lleol gan weithredwr y laser yn ystod ein hymweliad.
Roedd y clinig yn cynnig triniaethau botox meddygol i gleientiaid. Mae hwn yn wasanaeth y mae'n rhaid ei gofrestru ag AGIC yn gyntaf cyn ei gynnig.	Mae darparu gwasanaeth cofrestradwy heb gofrestriad yn drosedd o dan adran 24 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Felly, mae darparu gwasanaeth heb gofrestriad yn dileu'r mesurau diogelu sydd ar	Cododd yr arolygydd y gofyniad i'r gwasanaeth hwn gael ei gofrestru cyn ei gynnig i gleientiaid gyda'r rheolwr cofrestredig. Gofynnodd yr arolygydd i'r rheolwr	Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n rhoi gorau i gynnig Botox meddygol ac y byddai'n cyflwyno cais i gofrestru i AGIC.

	waith i gleifion a chleientiaid sy'n rhan o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.	cofrestredig roi'r gorau i gynnig Botox meddygol i gleientiaid nes ei fod wedi cofrestru ag AGIC.	
Gwelwyd eitemau bwyd a diod mewn ardaloedd clinigol	Gallai hyn achosi risg o haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd i staff a chleientiaid.	Tynnodd yr arolygydd sylw'r rheolwr cofrestredig at y mater hwn.	Symudwyd eitemau bwyd a diod o'r ardaloedd clinigol a thriniaeth.
Gwelwyd meddyginiaethau a chyfarpar cymorth cyntaf nad oeddent yn gyfredol yn y pecyn meddyginiaethau brys a'r bocs cymorth cyntaf yn y clinig.	Gallai hyn achosi niwed anffodus pe baent yn cael eu rhoi i gleient.	Hysbyswyd y rheolwr cofrestredig am ein canfyddiadau a'r goblygiadau.	Cafwyd gwared ar y meddyginiaethau a'r cyfarpar yn y clinig nad oeddent yn gyfredol.
Gwelwyd jar grefi a oedd yn cynnwys powdr gwyn yn yr ystafell driniaeth laser. Nid oedd y jar hon wedi'i labelu ac nid oedd yn cynnwys manylion dyddiadau dod i ben na chyfarwyddiadau trafod.	Gallai methiant i labelu'n briodol olygu y gallai'r eitem hon gael ei amlyncu neu ei defnyddio mewn ffordd amhriodol.	Hysbyswyd y rheolwr cofrestredig am ein canfyddiadau a'u goblygiadau.	Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrth yr arolygydd mai startsh a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Botox i drin hyperhidrosis oedd hwn. Cytunodd y byddai'n rhoi gorau i'r driniaeth ac y byddai'r jar hon yn cael ei symud o'r clinig.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: **CosmeticliniC, Caerffili**

Dyddiad yr arolygiad: **26 Medi 2022**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r person cofrestredig drefnu i'r gwiriadau canlynol gael eu cynnal ar y safle ar unwaith: - Gwiriad diogelwch nwy - Gwiriad gwifrau bob pum mlynedd - Profion PAT ar yr holl gyfarpar cludadwy yn y clinig, gan gynnwys y laser Fotana QX Max Dosbarth 4. Mae'n rhaid i'r person cofrestredig hefyd drefnu ar	Rheoliad 26(2a) a 26(4a-f) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Rwyf wedi cysylltu â'r peirianwyr i gwblhau Gwiriad Diogelwch Nwy, asesiad risg tân, gwiriad gwifrau pob pum mlynedd a phroffion PAT yn ystod y 3 wythnos nesaf. Bydd profion PAT yn gymwys i bob darn o gyfarpar trydanol yn y clinig, gan gynnwys y peiriant laser Fotana QX-Max.	Dr Kaushal	Tair wythnos

unwaith i gynnal asesiad risg tân ar gyfer y safle a rhoi'r argymhellion a wneir ar waith mewn modd amserol a di-oed yn ôl yr asesiad.				
Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ddiweddarau a diwygio'r polisi diogelu er mwyn sicrhau bod proses gadarn ar waith i ddiogelu'r rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin. Dylai hyn gynnwys manylion cyswllt y timau diogelu yn yr awdurdod lleol. Mae'n rhaid i'r person cofrestredig hefyd gyflwyno tystiolaeth o hyfforddiant diogelu hyd at lefel dau yr ymgwymerwyd ag ef yn ystod y pum mlynedd diwethaf i AGIC.	Rheoliad 16(1a-b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddiweddarau ac mae copi wedi cael ei amgáu. Mae'r hyfforddiant canlynol wedi cael ei ddilyn/drefnu:	Dr Kaushal	Dr Kaushal
Mae'n rhaid i'r person cyfrifol sicrhau bod hanes meddygol llawn a phriodol yn cael ei gofnodi ar gyfer pob cleient, a bod y rhain yn cael eu diweddarau yn ystod	Rheoliad 23(1)(a)(ii) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol	Nodwyd hyn ar adeg yr ymweliad. Bydd cleientiaid sy'n cael triniaeth laser yn cwblhau cofnod hanes meddygol newydd bob tro y cânt apwyntiad. Bydd yn fanwl	Dr Kaushal	Mae'r cam gweithredu hwn wedi cael ei gwblhau

pob ymweliad cyn i'r cleient gael triniaeth yn y clinig. Dylai'r hanes meddygol gael ei ddyddio a'i lofnodi gan yr ymarferydd sy'n rhoi triniaeth yn ystod pob apwyntiad.	(Cymru) 2011	ac yn cael ei ddyddio a'i lofnodi.		
Mae'n rhaid i'r person cyfrifol: - Sicrhau bod polisi a gweithdrefn rheoli heintiau ar waith sy'n briodol i'w glinig - Rhoi amserlenni glanhau ar waith a chofnodi pryd y caiff y tasgau a nodwyd ynddynt eu cwblhau er mwyn sicrhau bod pob ardal yn cael ei glanhau'n briodol - Storio eitemau clinigol yn gywir i atal y risg y bydd cleientiaid yn cael haint sy'n gysylltiedig â gofal ieuchyd. - Cael gwared ar eitemau bwyd a diod yn ardaloedd clinigol y clinig - Sicrhau bod offer tafladwy	Rheoliad 15(7a,b), 15(8a,c i-iii) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Amgaeir copi o'r Polisi Rheoli Heintiau. Mae hwn yn briodol i'n Clinig. Atodaf hefyd gopi o'r amserlen lanhau. Mae pob cam gweithredu arall hefyd wedi cael ei gwblhau.	Dr Kaushal	Wedi'i gwblhau

yn cael eu gwaredu'n gywir ac nad ydynt yn cael eu storio mewn droriau. Mae'n rhaid i offer y mae angen eu hailbrosesu gael eu trin yn briodol cyn gwneud hynny Sicrhau bod sinciau a chyfleusterau golchi dwylo yn cael eu glanhau'n rheolaidd.				
Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau: - Bod bocs cymorth cyntaf â chyflenwadau priodol bob amser yn bresennol yn y clinig laser - Bod dyddiadau'n cael eu gwirio'n rheolaidd ac os ydynt ar fin dod i ben y caiff eitemau newydd eu prynu - Bod tystiolaeth o hyfforddiant cymorth cyntaf diweddar wedi'i gyflwyno i AGIC.	Rheoliad 26(2a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Rwy'n aros i'r fferyllydd lleol ddosbarthu bocs cymorth cyntaf i'r clinig Rwy'n aros am y ddolen i gwblhau dolen hyfforddiant cymorth cyntaf gan fy rheolwr practis. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau caiff copi o'r dystysgrif ei lanlwytho. Mae dyddiadau dod i ben ar yr holl feddyginiaethau, nodwyddau, chwistrellau ac offerynnau wedi cael eu gwirio ac mae'r rhai lle mae'r dyddiad wedi dod i ben wedi cael eu gwaredu.	Dr Kaushal	Wythnos
Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod adborth	Rheoliad 19 o Reoliadau Gofal	Mae copi o'n harolwg o'r adborth wedi cael ei amgáu. Bu oedi cyn cychwyn	Dr Kaushal	

cleientiaid yn cael ei gasglu mewn modd strwythuredig a chyson. Dylid asesu hyn i weld a oes themâu neu dueddiadau yn dod i'r amlwg er mwyn cyfrannu ar y broses o wella'r gwasanaeth yn barhaus.

Mae'n rhaid i'r person cofrestredig baratoi adroddiad fel y'i nodwyd yn rheoliad 19 o Reoliadau Gofal Iechyd (Cymru) 2011. Mae'n rhaid gwneud hyn bob blwyddyn a'i gyflwyno i AGIC ar gais.

Iechyd
Annibynnol
(Cymru) 2011

mwyaf diweddar yr arolwg hwn oherwydd cau'r clinig o ganlyniad i'r pandemig ac ati. Fodd bynnag, rydym bellach wedi ailgyhoeddi'r arolwg hwn a byddwn yn coladu ei ganfyddiadau yn unol â hynny.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth:

CosmeticliniC, Caerffili

Dyddiad yr arolygiad:

26 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y Swyddog cyfrifol gwasanaeth	Amserlen
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod costau triniaethau yn gyfredol, yn gywir ac yn cael eu harddangos ar y wefan ac yn y clinig er mwyn i gleientiaid eu gweld.	Rheoliad 9 o Reoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r rhestr brisiau wedi cael ei diweddaru ar y wefan ac mae copi yn cael ei arddangos yn y clinig	Dr Subhash Kaushal wedi'i gwblhau
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben. Dylid darparu'r rhain ar wefan y clinig lle bo un ar gael a'u hadolygu bob blwyddyn.	Rheoliad 6, 7 a 8 o Reoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r canllaw i gleifion wedi cael ei ddiweddaru. Mae ar gael yn y clinig. Rwy'n aros i'r peiriannydd gwe ei ddiweddaru ar y wefan os oes modd.	Dr Subhash Kaushal wedi'i gwblhau
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod	Rheoliad 18 o Reoliadau Gofal	Rwyf wedi cysylltu â pheiriannydd meddalwedd y	Dr Subhash Kaushal Un mis

cleientiaid yn ymwybodol o'r anawsterau hygyrchedd wrth gyrraedd y clinig. Dylai hyn gael ei nodi'n glir ar wefan y clinig ac yn y canllaw i gleifion.	lechyd Annibynnol (Cymru) 2011	wefan. Er mwyn ychwanegu'r wybodaeth hon at y wefan er budd cleifion.		
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleientiaid mewn modd sy'n diwallu eu hanghenion unigol lle y bo modd (e.e., fersiynau hawdd eu darllen, fersiynau Cymraeg).	Rheoliad 18 o Reoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae gwybodaeth i gleifion ar gael yn Saesneg. Rwy'n aros am ymateb gan Lasermet i sicrhau ei bod ar gael yn Gymraeg hefyd.	Dr Subhash Kaushal	Un mis
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau ei bolisi cwynion a sicrhau ei fod yn cynnwys manylion cyswllt cyfredol AGIC.	Rheoliad 24 o Reoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae wedi'i ddiweddarau	Dr Subhash Kaushal	wedi'i gwblhau
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig beidio â chynnig triniaethau botox meddygol nes ei fod wedi'i gofrestru ag AGIC.	Adran 24 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, Adran 15(1b) a 15(1d) o Reoliadau Gofal lechyd	Nid yw hyperhidrosis na Botox i drin cyflwr meddygol ar gael mwyach. Mae'r wefan wedi'i diweddarau. Dim ond triniaeth Botox at ddiben esthetig sydd ar gael.	Dr Subhash Kaushal	wedi'i gwblhau

	Annibynnol (Cymru) 2011			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r sbectolau diogelwch a ddarperir wrth ddefnyddio'r laser, er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r hyn a bennwyd o dan y Rheolau Lleol a/neu'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.	Rheoliad 45(3d) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r sbectolau diogelwch ar gyfer y laser wedi cael eu harchwilio gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn ystod yr ymweliad diwethaf	Dr Subhash Kaushal	Wedi'i gwblhau
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi hylendid dwylo cadarn ar waith	Rheoliad 7 ac 8 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r polisi ynglŷn â hylendid wedi cael ei ddiweddar ac mae ar gael i'r sawl sy'n glanhau'r clinig. Bydd y sawl sy'n glanhau'r clinig yn cwblhau taflen waith ar ôl pob sesiwn lanhau	Dr Subhash Kaushal	Wedi'i gwblhau
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob polisi sy'n ofynnol o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011: • Yn cael ei adnewyddu bob 3 blynedd	Rheoliad 9 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae Lasermet yn rhoi cymorth i'r clinig ddiweddarau'r polisiâu hyn. Caiff y rhain eu diweddarau bob 3 blynedd. Rwyf wedi anfon copi o gynllun gwella (heb ei gwblhau) at Lasermet.	Dr Subhash Kaushal	wedi'i gwblhau

Yn berthnasol ac yn benodol i wasanaethau a lleoliad y clinig				
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr adborth a roddir gan gleientiaid yn cael ei arddangos er mwyn i gleientiaid allu ei weld yn y clinig ac ar y wefan	Rheoliad 19(e) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Cyflwynir unrhyw adborth gan gleientiaid drwy'r wefan a chaiff ei ddiweddararu ar y wefan er mwyn i gleientiaid ei ddarllen. Byddwn yn dosbarthu ffurflenni adborth i'w cwblhau gan gleientiaid i'w cadw yn y clinig unwaith y byddant wedi'u dychwelyd.	Dr Subhash Kaushal	Wedi'i gwblhau
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod offer diangen nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach yn cael ei symud o'r clinig.	Rheoliad 15(8i) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae eitemau diangen nad ydynt yn cael eu defnyddio wedi cael eu gwaredu ar ôl yr arolygiad	Dr Subhash Kaushal	Wedi'i gwblhau
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob diffoddwr tân yn cael ei atodi'n sOWNd i'r wal neu'r llawr.	Rheoliad 26(4) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Rwy'n aros i'r peiriannydd alw heibio a'i osod mewn ardal ddiogel lle bydd ar gael yn hawdd mewn argyfwng.	Dr Subhash Kaushal	Un mis

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff o'r ganolfan feddygol a ddefnyddir yn cael: • Gwiriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n cael ei adnewyddu'n unol ag arferion gorau • Hyfforddiant diogelu priodol hyd at lefel dau • Cytundeb ysgrifenedig ffurfiol sy'n cwmpasu telerau cyflogaeth yn y clinig laser yn ogystal â chyfrifoldebau, disgrifiad swydd a manylion am gydnabyddiaeth.	Rheoliad 20 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r polisi hwn wedi cael ei roi ar waith.	Dr Subhash Kaushal	Wedi'i gwblhau
--	---	--	---------------------------	-----------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dr Subhash Kaushal

Teitl swydd: Rheolwr Gyfarwyddwr
Dyddiad: 24 Hydref 2022